


Tasg 2

Blasus ond ...?

1. Beth ydych chi'n feddwl o siocled? Siaradwch am hyn mewn grŵp.
Dw i'n meddwl bod siocled yn ...
Dw i'n meddwl ei fod e'n / o'n ...
Dw i'n cytuno achos ...
Dw i ddim yn cytuno achos ...
Dw i'n anghytuno achos ...
Ar un llaw, mae siocled yn ... ond ar y llaw arall, mae siocled yn ...
2. Trafodwch y cwestiynau yma mewn grŵp.
 - a. Pa fath o siocled ydych chi'n hoffi?
 - b. Beth ydy'ch hoff siocled chi?
 - c. Pryd ydych chi'n bwyta siocled?
 - ch. Ydych chi'n bwyta gormod o siocled? (Byddwch yn onest!)
Rhowch reswm dros eich ateb.
3. Ar y dudalen nesaf, mae rhai rhesymau o blaid ac yn erbyn bwyta siocled.

Cyn darllen y rhesymau, edrychwch ar y geiriau yma.

Geirfa			
o blaid	for	smotiau	spots
yn erbyn	against	calon	heart
rhoi pwysau ymlaen	to put on weight	dannedd	teeth
egni	energy	yn gaeth i	addicted to
para	to last	yn bendant	definitely



Rhesymau o blaid ac yn erbyn bwyta siocled

Mae'n ddrwg i'r dannedd.

Mae'n ddrud.

Mae'n flasus.

Mae'n rhoi egni i chi.

Dydy'r egni ddim yn para'n hir.

Fel arfer, mae llawer o siwgr mewn siocled ac felly mae'n ddrwg i chi.

Mae'n helpu gyda mathemateg (o bosib!!!)

Os ydych chi'n bwyta gormod, byddwch chi'n rhoi pwysau ymlaen.

Mae'n bosib mynd yn gaeth i siocled.

Mae rhai pobl yn dweud, "Mae siocled tywyll yn dda i'ch calon chi!"

Mae'n gwneud i chi fyw'n hir (o bosib!!)*

Mae'n help i chi deimlo'n well os ydych chi'n teimlo'n drist.


Mae rhai pobl yn dweud, "Mae siocled yn rhoi smotiau i chi!"

Mae rhai pobl yn dweud, "Dydy siocled ddim yn rhoi smotiau i chi!"

* Bobl bach!

Roedd Jeanne Louise Calment yn 122 oed. Roedd hi'n bwyta tua kilogram o siocled tywyll bob wythnos.

Pa frawddegau sy o blaid siocled?
Pa frawddegau sy yn erbyn siocled?
Ysgrifennwch yn y grid ar y dudalen nesaf.




O blaid	Yn erbyn

4. Mae rheol newydd yn yr ysgol:

DIM SIOCLED YN YR YSGOL!

Dim bariau siocled!
Dim fferins / losin siocled!
Dim bisgedi siocled mewn bocsys bwyd!
Dim cacennau / teisennau siocled mewn bocsys bwyd!
Ac yn bendant ...

DIM DIOD SIOCLED!



Beth ydych chi'n feddwl o'r rheol newydd?
Trafodwch hyn mewn grŵp.

Dyma ychydig o help i chi:

Dw i'n cytuno â'r rheol newydd achos ... Dw i ddim yn cytuno â'r rheol newydd achos ... Dw i'n anghytuno â'r rheol newydd achos ...	I agree with the new rule because ... I don't agree with the new rule because ... I disagree with the new rule because ...
Dw i'n meddwl bod ... Dw i ddim yn meddwl bod ...	I think that ... I don't think that ...
Yn fy marn i, mae ... Heb os nac oni bai, mae ... Yn bendant, mae ...	In my opinion, ... is / are ... Without a doubt, ... is / are ... Definitely, ... is / are ...

Geirfa	
yn bendant	definitely

